



CANOLBWYNT CYFLOGAETH  
**CONWY**  
EMPLOYMENT HUB

CYMORTH HYFFORDDIANT GRYMUSO  
SUPPORT TRAINING EMPOWERMENT

EBRILL 2023

# Newyddion y Canolbwynt



RHIFYN 5

## Uchafbwyntiau'r Newyddlen

Y Wybodaeth  
Ddiweddaraf am Raglenni  
Cyflogadwyedd

Ffair Yrfaedd Conwy

Adolygiad o'r Gronfa  
Adfywio Cymunedol

## CROESO

Daeth blwyddyn ariannol 2022-23 i ben ar nodyn cadarnhaol gyda Ffair Yrfaedd Conwy, ac rwy'n falch iawn o ddweud ein bod wedi dechrau'r flwyddyn newydd ar sylfaen fwy cadarn gyda rhagor o adnoddau ariannol gan Lywodraeth Cymru i redeg Rhaglen Gyflogadwyedd Cymunedau am Waith a Mwy.

Ym mis Mawrth 2023, daeth rhaglenni Cymunedau am Waith a PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) Llywodraeth Cymru i ben ar ôl rhedeg am wyth mlynedd. Mae'r rhain wedi bod yn hynod o lwyddiannus gan ddarparu cefnogaeth amhrisiadwy i'r rhai sydd ei hangen yng Nghonwy, ac er eu bod wedi dod i ben, bydd yr help a'r gefnogaeth a oedd ar gael yn parhau trwy raglen Cymunedau am Waith a Mwy, a gallwch ddarllen mwy am hyn yn y newyddlen hon, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf a gweithgareddau eraill.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r rhifyn hwn, ac os gallwn eich helpu chi a'ch busnes mewn unrhyw ffordd, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Libby Duo, Rheolwr Strategol

## RHAGLENNI CYFLOGADWYEDD LLYWODRAETH CYMRU

Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £135 miliwn yn rhaglenni cyflogadwyedd Cymunedau am Waith a PaCE dan Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE, ac wrth i'r DU adael yr UE, daeth y ddau gynllun i ben ar 31 Mawrth.



Roedd Cymunedau am Waith yn cael ei gweithredu fel partneriaeth unigryw gydag Awdurdodau Lleol, yr Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid trydydd sector fel rhaglen cod post i helpu a chefnogi'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ers 2015, mae wedi helpu 37,000 o bobl a chefnogi 16,000 o bobl i gael gwaith.



Roedd rhaglen PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) ar gyfer rhieni oedd yn canfod mai gofal plant oedd eu prif rwystr i gyflogaeth, ac ers 2015, mae wedi gweithio gyda 7,500 o rieni a chefnogi 3,500 i gael gwaith.



Cyflwynwyd Cymunedau am Waith a Mwy yn 2018 i ategu Cymunedau am Waith a PaCE, i sicrhau bod help a chefnogaeth ar gael i bobl oedd yn ddi-waith yn yr hirdymor neu'n economaidd anweithgar ledled Cymru, ac mewn dim ond pum mlynedd, mae wedi cefnogi mwy na 40,000 o unigolion gyda mwy na 17,500 yn symud i mewn i waith.

Dyweddodd Colin Morris, Pennaeth Rhaglenni Cyflogaeth yn Llywodraeth Cymru yn ddiweddar mai nid dim ond ystadegau sydd dan sylw yma; dywedodd fod pob ffigwr yn unigolyn sydd wedi cael help. Mae llawer wedi gweld eu bywydau nhw a'u teuluoedd yn cael eu trawsnewid, gan wneud gwahaniaeth mawr i'w cyfleoedd bywyd. Mae'r rhaglenni wedi'u helpu i gynyddu eu hyder, rhoi mwy o deimlad o bwrpas, cyflawniad a chysylltiad cymdeithasol iddynt, a thrwy eu helpu i gael cyflogaeth, maen nhw wedi dod yn fodelau rôl i'w plant hefyd.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb o bob math yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ac i gydnabod yr heriau sydd o'n blaenau, mae'n ariannu proses ehangu rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy rydym ni'n ei darparu o 1 Ebrill.

Mae hyn yn sicrhau y byddwn ni'n gallu parhau i helpu a chefnogi'r rhai sydd ei angen fwyaf ledled y Sir. Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth fentora ddwys wedi'i theilwra i'r unigolyn i helpu pobl i ddatblygu eu hyder; darparu cyrsiau hyfforddiant proffesiynol i feithrin eu sgiliau; cynnig cefnogaeth ariannol i oresgyn rhwystrau i hyfforddiant a chyflogaeth, a'u helpu i gael a chadw gwaith.

Yn ogystal â Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy, mae gennym gyllid ychwanegol gan Warant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru i helpu a chefnogi pobl ifanc 16-24 oed i gael gwaith, bod yn hunangyflogedig neu gael hyfforddiant i ddatblygu sgiliau gydol oes.

Pobl ifanc heddiw sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil y pandemig ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd eu profiadau'n cael effaith ar weithrediadau busnes, diwylliant, addysg a'r gymdeithas ehangach mewn blynyddoedd i ddod.

Yn ystod y 15 mis ers lansio'r Warant i Bobl Ifanc ym mis Hydref 2021, mae wedi darparu cefnogaeth i fwy na 6,500 o bobl ifanc, gyda bron i 2,800 yn dechrau cyflogaeth, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda phobl ifanc Conwy i roi dyfodol gwell a mwy disglair i bob un ohonynt.

## FFAIR YRFAOEDD CONWY

Ddydd Iau 23 Mawrth, cynhaliwyd Ffair Yrfaedd gyntaf Conwy yn benodol ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed yn yr Ysgubor, Canolfan Ddigwyddiadau Eirias ym Mae Colwyn.

Roedd y Ffair yn rhan o'n cylch gwaith i helpu a chefnogi pobl ifanc 16-24 oed i mewn i gyflogaeth a/neu hyfforddiant er mwyn datblygu sgiliau gydol oes.



Trefnwyd y digwyddiad gennym ni mewn partneriaeth â rhaglen Cymru'n Gweithio, a gaiff ei darparu gan Gyrrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Creu Menter a Chymorth i Fusnesau Conwy ac roeddem wrth ein boddau bod mwy na 75 o fusnesau a sefydliadau wedi dod ag arddangosfa, o gyrsgiau addysg a hyfforddiant, busnesau gyda chyfleoedd prentisiaethau a gyrfa a busnesau eraill a oedd am ymgysylltu â'r genhedlaeth nesaf o weithwyr. Ymhlith y rhai oedd yn arddangos roedd Airbus, Akari Care, Becoming the Great, Excelitas Technologies, Mind Conwy, Salon Claire Michelle, Supertemps, Galw Gofal, Gwesty'r Imperial Llandudno, CSM Services Group, Parkdean Resorts, y Fyddin, yr Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub, yn ogystal â'r Hwb Menter yn M-SParc, Syniadau Mawr Cymru, GYG Karting a'r cyn saethwr i Glwb Pêl-droed Wrecsam, Marc Williams, sydd bellach yn hyfforddwr aml-chwaraeon a siaradwr.

Cynhaliwyd y digwyddiad rhwng 11am a 4pm ac yn ystod y cyfnod hwnnw, daeth 482 o ymwelwyr a oedd yn awyddus i ganfod pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt yng ngogledd Cymru. Yn ogystal â'r arddangoswyr, roedd adloniant am ddim ar gael gyda chwrs rhwystrau aer a Bws Gemau iBox ac roedd gan nifer o'r arddangoswyr stondinau rhyngweithiol gan gynnwys Nintendo North Wales, URG a CELS sy'n darparu sesiynau addysg cymeriad i ddatblygu cadernid, gwaith tîm a hyder, yn ogystal â sgiliau ymarferol eraill trwy weithgareddau difyr ac ymarferol.

Roedd adborth gan arddangoswyr a mynychwyr yn hynod o gadarnhaol:

- Dywedodd 80% o arddangoswyr fod y digwyddiad yn ardderchog neu'n dda iawn
- Dywedodd 68% o fynychwyr fod y digwyddiad yn ardderchog neu'n dda iawn

Ac roedd y sylwadau yr un mor ffafriol:

*"Diolch yn fawr iawn am drefnu hyn. Daeth llawer o bobl i'n gweld. Gobeithio y cynhelir yr un digwyddiad y flwyddyn nesaf."*

*"Cawsom ddigwyddiad gwych. Wedi'i drefnu'n dda iawn a chawsom sgysgiau gwych gyda'r ymwelwyr. Un o'r digwyddiadau gyrfa gorau i ni ei fynychu ers tro."*

*"Digwyddiad gwych - roedd yn dda gweld sefydliadau lleol yn ei gefnogi."*

Os hoffech glywed am ein digwyddiadau yn y dyfodol, anfonwch e-bost at [ceh@conwy.gov.uk](mailto:ceh@conwy.gov.uk) a gallwn eich rhoi ar ein cronfa ddata.







# CEFNOGI POBL IFANC

Rydym yn dal i gefnogi pobl ifanc 16-24 oed gyda rhaglen o ddigwyddiadau i'w galluogi i ddatblygu sgiliau wrth ddarparu llwybr clir at gyflogaeth. Dyma rai sydd wedi'u cynnal yn ddiweddar:

- Penwythnos gweithgareddau awyr agored yng ngwersyll Glan Llyn a oedd yn cynnwys agweddau cyflogadwyedd wedi'u plethu i'r amserlen fel bod cyngor am yrfa oedd a hyfforddiant, ysgrifennu CV a pharatoi at gyfweiliadau ar gael.
- Cafodd rhaglen Llwybr Gweithgareddau Awyr Agored 10 wythnos ei rhedeg mewn partneriaeth â Ffit Conwy, a ddyluniwyd i roi blas i gyfranogwyr ar yrfa yn y sector gweithgareddau. Yn ystod y cwrs, bu cyfranogwyr yn e-feicio, dringo, cerdded ac ogofa dan do, a chawsant hyfforddiant cyrsiau beicio a Chymorth Cyntaf gyda'r dewis o gofrestru ar gyfer cyrsiau hyfforddi ychwanegol.
- Cafodd cwrs Pasbort i Adeiladu ei redeg gan Greu Menter i roi sgiliau ymarferol i gyfranogwyr ar gyfer gyrfa ym maes adeiladu, gan gynnwys hyfforddiant ardystiedig mewn lechyd a Diogelwch, paratoi ar gyfer y prawf i gael eu cerdyn CSCS a sefyll y prawf hwnnw.
- Cwrs hyfforddi hunan-amddiffyn/hunan-ymwybyddiaeth wedi'i ariannu'n llawn. Roedd y cwrs chwe wythnos yn cynnwys ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol mewn bywyd bob dydd ac yn dangos technegau hunan-amddiffyn corfforol effeithiol a hawdd i'w cofio.
- Bu gweithdai crochenwaith a chelf hefyd er mwyn i gyfranogwyr creadigol archwilio'r meysydd hyn fel dewisiadau gyrfa.



## CRONFA ADFYWIO CYMUNEDOL

Nod Cronfa Adfywio Cymunedol y DU - Rhaglen Sgiliau a Chyflogadwyedd ar gyfer Adferiad a Thwf oedd cefnogi pobl a chymunedau oedd fwyaf mewn angen trwy fuddsoddi mewn sgiliau, cymuned a lle, busnesau lleol a chefnogi pobl ifanc i gael gwaith.

Arweiniodd Canolbwynt Cyflogaeth Conwy ar gais Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i sicrhau £263,000 i redeg pum prosiect a gan fod y rhaglen wedi dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022, dyma drosolwg o'n cyflawniadau:

### Hyder yn Dy Hun

Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar leihau ynysiad cymdeithasol, datblygu gwytnwch, cynyddu hyder/hunanbarch, datblygu sgiliau ymarferol, ariannol, digidol a chyflogadwyedd, gwirfoddoli, ennill cymwysterau, gwella iechyd corfforol a meddyliol.

Roedd yn darparu cefnogaeth sylweddol i gyfranogwyr gyda gweithgareddau wythnosol yn cynnwys gwahanol fathau o hyfforddiant, gweithgareddau anturus, celf a chreffft, a chyflawnwyd y canlynol:

- Cefnogwyd 56 o gyfranogwyr a dywedodd pob un fod y rhaglen wedi gwella eu cynhwysiad cymdeithasol a lleihau rhwystrau cymdeithasol
- Mynychodd 46 o gyfranogwyr hyfforddiant neu sesiynau addysgol

### Cwmsela Therapiwtig

Cwmsela a/neu hyfforddi tymor byr oedd hyn sy'n canolbwyntio ar waith i gefnogi pobl i oresgyn rhwystrau iechyd meddwl i gyflogaeth, dan arweiniad RCS Wales. Buont yn cefnogi 50 o gyfranogwyr a dywedodd 84% fod eu gallu i weithio wedi gwella o ganlyniad i'r ymyrraeth a dywedodd 84% fod eu hiechyd wedi gwella hefyd.

### Coleg Adfer Iechyd Meddwl

Prif ganlyniad y prosiect hwn oedd Cynllun Arloesi i nodi'r sail ar gyfer Coleg Adfer Iechyd Meddwl i Gonwy.



UK Government Wales  
Llywodraeth y DU Cymru

Roedd y cynllun yn seiliedig ar ymgynghoriad, trafodaethau gyda budd-ddeiliaid a gwaith cyd-gynhyrchu gyda phobl oedd yn gwirfoddoli i gymryd rhan - fel unigolion sydd â phrofiad o iechyd meddwl ac fel cynrychiolwyr sefydliadau sydd am gymryd rhan. Dangosodd y Cynllun y byddai Coleg Adfer Iechyd Meddwl o fudd i'r sir ac mae ffynonellau cyllid yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd.

### Cyrsiau Llwybr a Datblygiad

Roedd dwy elfen benodol i'r Rhaglen. Roedd y Cyrsiau Llwybr yn darparu hyfforddiant penodol i sectorau i gyfranogwyr sy'n barod am waith a oedd yn canolbwyntio ar sectorau y mae galw lleol amlwg amdanynt. Bwriad y Cyrsiau Datblygiad oedd ymgysylltu â phobl oedd yn bellach o'r farchnad lafur er mwyn ennyn eu diddordeb mewn dewisiadau datblygu fel rhan o daith hirach tuag at gyflogaeth.

- Cynhaliwyd 36 cwrs
- Cwblhaodd 149 o gyfranogwyr gwrs yn llwyddiannus
- Cafodd 31 o gyfranogwyr gefnogaeth i gael gwaith
- Cafodd 69 o gyfranogwyr gefnogaeth i ennill cymhwyster
- Cafodd 24 o gyfranogwyr gefnogaeth i ymgysylltu â sgiliau bywyd
- Enillodd 84 o gyfranogwyr gymwysterau nad ydynt wedi'u cofrestru â OFQUAL

### Canolbwyntiau Adferiad mewn Llyfrgelloedd Cymunedol

Roedd hwn yn brosiect pilot a oedd yn darparu gwasanaethau mewn llyfrgelloedd y mae darparwyr gwasanaeth fel arfer yn eu darparu o'u heiddo eu hunain neu nad oeddent ar gael yn lleol. Roedd y cam yn llwyddiannus a defnyddiwyd y gwasanaethau 2,774 o weithiau, a chynhaliwyd 261 o sesiynau cefnogaeth a thrafodaeth gyda chyfranogwyr unigol a gobeithir y bydd hyn yn parhau.

I grynhoi, roedd y rhaglen Cronfa Adfywio Cymunedol yn llwyddiant o ran gwireddu buddion economaidd i'r cyfranogwyr a hefyd i'r cyflogwr, yn enwedig o ystyried y prinder presennol o ran sgiliau a llafur, ac ni ellir diystyru'r gwahaniaeth cadarnhaol mae'r prosiectau wedi'i wneud i fywydau nifer o bobl.



## DWEUD EICH DWEUD

Dros y misoedd diwethaf, mae amrywiaeth o westeion diddorol wedi ymuno â ni ar gyfer ein slotiau wythnosol ar Sound Radio a Bayside Radio gan gynnwys:

- \* Adferiad Recovery \* Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- \* Midas Touch Jewels \* The VAE \* Kogan Coaching
- \* Nelson Myatt Solicitors \* Crest

Rydym wedi trafod ffeiriau swyddi, hunan-gyflogaeth, pwysigrwydd Ewyllysiau ac Atwrneiaeth, hyfforddiant a chefnogaeth i gyn-filwyr a swyddi gwag presennol a chyfleoedd gyrfa.

Os hoffech ymuno â ni ar y rhaglen i siarad am eich sector busnes a diwydiant, byddem yn falch o glywed gennych chi - anfonwch e-bost at [ceh@conwy.gov.uk](mailto:ceh@conwy.gov.uk) a byddwn yn cysylltu â chi.



## DIGWYDDIAD RHWYDWEITHIO CYFLOGADWYEDD

Mae'r Sefydliad Gweithwyr Proffesiynol Cyflogadwyedd yn cynnal ei Ddigwyddiad Rhwydweithio Rhanbarthol cyntaf yng Nghymru.

Mae'r digwyddiad wedi'i drefnu ar y cyd â Chanolbwynt Cyflogaeth Conwy, a chaiff ei gynnal gan Bartneriaid Cyswllt Corfforaethol y Sefydliad, People Plus, ddydd Mercher 3 Mai yn Venue Cymru.

Dewch i ymuno â ni i fwynhau lluniaeth, cwrdd, rhwydweithio, rhannu arfer gorau a syniadau gyda'n cydweithwyr cyflogadwyedd a'n cyfoedion. Cofrestrwch ar gyfer eich tocyn am ddim **[yma ar Eventbrite](#)**



## NIWROAMRYWIAETH - DATRYSIAD RECRIWTIO

Nododd adroddiad gan y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth ar ddiwedd mis Mawrth nad yw'r prinder o ran llafur a sgiliau yn mynd i ddiplannu'n fuan, a bod angen i gwmnïau addasu eu cynlluniau penodi i gyfateb â hyn. Aeth ymlaen i ddweud y bydd cwmnïau sy'n canolbwyntio ar gyrraedd gwahanol gymunedau, datblygu sgiliau ac ymgysylltu â staff yn gweld y buddion.

Mae cyrraedd gwahanol gymunedau yn cyd-fynd ag adolygiad Llywodraeth y DU i roi hwb i ragolygon cyflogaeth pobl ag awtistiaeth.

Ar hyn o bryd, mae llai na thri o bob deg o bobl ag awtistiaeth yn gweithio, felly bydd yr adolygiad yn darparu gwybodaeth hanfodol am pa rwystrau mae angen eu dileu i'w helpu i ddechrau mewn gwaith, aros yno a llwyddo, wrth ganolbwyntio ar pa gefnogaeth sydd ei hangen ar gyflogwyr er mwyn elwa ar fanteision gweithlu niwroamrywiol.

Mae nifer o sefydliadau arbenigol a all helpu i gefnogi busnesau yn y maes hwn. Os hoffech ragor o fanylion, anfonwch e-bost atom ar [ceh@conwy.gov.uk](mailto:ceh@conwy.gov.uk).

## FFAIR SWYDDI GOFAL CYMDEITHASOL

Mae gyrfa ym maes gofal cymdeithasol yn cynnig diogelwch swydd gwych, buddion ac oriau wedi'u gwarantu, a gyda mwy na 65 o wahanol swyddi, mae'n cynnig amrywiaeth o wahanol gyfleoedd gyrfa.

Mae llawer o bobl sy'n gweithio yn y sector hwn wedi gweithio ym maes lletygarwch a manwerthu o'r blaen felly er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau trosglwyddadwy hyn yn ogystal â hyrwyddo'r sector a'r amryw swyddi, cynhelir Ffair Swyddi Gofal Cymdeithasol yng Nghoed Pella ym Mae Colwyn, ddydd Mawrth 16 Mai rhwng 1pm a 6.30pm.

Bydd nifer o arddangoswyr yn y digwyddiad sydd wrthi'n recriwtio, felly peidiwch â methu'r cyfle delfrydol hwn i ddysgu mwy am weithio ym maes gofal cymdeithasol.



## CYNLLUN SGILIAU A CHYFLOGAETH GOGLEDD CYMRU

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi datblygu Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025.

Mae'r cynllun yn dod â throsolwg o anghenion busnesau a chyflogwyr lleol o ran cyflogaeth, recriwtio a sgiliau ynghyd â'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolion i gyflawni eu potensial. Mae'n nodi'r heriau, amlygu'r cyfleoedd ac arddangos enghreifftiau o arfer da ac mae'n nodi Cynllun Gweithredu'n glir.

Er mwyn darparu'r cynllun yn llwyddiannus, mae angen ymrwymiad gan gyflogwyr, unigolion, darparwyr hyfforddiant a Llywodraeth Cymru, ac mae RSP wedi nodi Cynllun Gweithredu'n glir gyda blaenoriaethau allweddol sydd wedi'u dylunio i gael effaith gadarnhaol ar yr heriau a wynebwr gan gyflogwyr a phreswylwyr gogledd Cymru a fydd yn gwella ffyniant economaidd y rhanbarth.

**Cliciwch yma** i weld y cynllun.

**Cysylltwch Canolbwynt Cyflogaeth Conwy ar 01492 575578, e-bost [ceh@conwy.gov.uk](mailto:ceh@conwy.gov.uk) neu ewch <https://www.conwy.gov.uk/conwyemploymenthub>**

Canolbwynt Cyflogaeth Conwy sy'n rhedeg Rhaglen Gyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, Cymunedau am Waith a Mwy, sydd hefyd yn ariannu'r Warant i Bobl Ifanc. I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni, ewch i <https://bit.ly/CEHRhaglenni>

Daw'r newyddlen hon o restr bostio. Os dymunwch ddad-danysgrifio, **cliciwch yma** a theipiwch 'unsubscribe' yn y blwch 'Subject' a byddwn yn dileu eich manylion ar unwaith.

This document is also available in English.

